GWASANAETH PLANT YN Y DYFODOL DIGIDOL

Diolch yn fawr am eich dogfen ymgynghorol. Mae'n ddogfen ddiddorol a phwysig lawn. Bum ar fy ennill o'i darllen. Dyma rai pwyntiau.

1. Cefais fod para.3.1 a 3.2 yn gymorth sylweddol i ddeall natur a maint y broblem sydd yn wynebu S4C. Mae 'na broblem gyffredinol ledled Ewrop (ac efallai ledled y byd) sef, sut mae darparu rhaglenni a fydd "yn ddewis naturiol i nifer sylweddol o blant", a "p[h]obl ifanc yn eu harddegau" sydd "yn grŵp arbennig o anodd ei gyrraedd." Dyma'r man cychwyn mae'n debyg..

2.1 Yr hyn sy'n arbennig am sefyllfa S4C yw eich canfyddiad "bod proffil yr iaith Gymraeg yn newid". Felly wynebwch nid yn unig y broblem gyffredinol, ond hefyd problem benodol i S4C. Ond tybed ai proffil yr iaith sy'n *newid?* Efallai eich bod yn iawn, ond dwy'i ddim mor siŵr am hynny. Daeth tro ar fyd. Bu llawer tro ar fyd yn y gorffennol, ond goroesodd y Gymraeg. Onid wynebu yr ydym heddiw ar dro arall ar fyd, - y tro hwn yn sgil globaleiddio a datblygiadau technegol - ond bod y grymusoedd allanol yn ei herbyn yn llawer cryfach.

2.2 Ymddengys i mi fod eich canfyddiad am broffil yr iaith wedi ei seilio i raddau helaeth ar dystiolaeth Cyfrifiad 2001. Roedd cynnydd yn niferoedd y plant sy'n gallu siarad yr iaith yn rhwym o ddilyn cydnabod y Gymraeg fel pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ond mae angen gofal wrth dynnu casgliadau cyffredinol am gyflwr a rhagolygon yr iaith oddi wrth Cyfrifiad 2001. Gwendid y ffigurau yw nad ydynt yn dweud dim o gwbl wrthym am allu'r plant i ddefnyddio'r Gymraeg, nac am "deimlad" y plant tuag at y diwylliant sy'n gysylltiedig a'r Gymraeg. Pan ddywed y Cyfrifiad fod X% o'r plant yn nhref A yn gallu siarad y Gymraeg, dyna hunanasesiad y rhiant - gwyddom y gall rhieni frolio galluoedd eu plant! Rwy'n ofni fod nifer y plant sydd mewn gwirionedd yn siarad y Gymraeg yn eu bywyd bob dydd yn debyg o fod yn llawer lawn is na ffigurau'r Cyfrifiad. [A pha arwyddocâd sydd i'r ffaith bod canran y plant rhwng 3-4, a 5-9 sy'n siarad Cymraeg yn ne ddwyrain Cymru (ar wahân i Sir Fynwy) yn is na chanran y plant 15 oed sy'n ei siarad, yn ôl Cyfrifiad 2001, Tabl CAS 146? Onid yw hyn yn awgrymu y bydd y nifer o bobi ifanc rhwng 10 a 15 yn siarad Cymraeg wedi cwympo yn is na 43% ymhen yr ugain mlynedd nesaf os pery'r tueddiad presennol; neu a ydw'i yn camddeall yr ystadegau.] Ond ar ôl dweud hyn oll, mae agweddau cadarnhaol i ffigurau Cyfrifiad 2001, wrth gwrs. Mae nhw yn dangos fod canran helaeth o blant Cymru yn meddu ar ryw grap ar y Gymraeg erbyn hyn. Mae nhw hefyd yn awgrymu bod ewyllys da tuag at y Gymraeg ar ran nifer uchel o riaint yn y de ddwyrain Seisnigedig. Gellir adeiladu ar y sylfaen honno.

3.1 Credaf fed paragraffau 3.4.1.3 hyd 3.4.1.5 yn allweddol. Byddai'n help pe byddech yn ymhelaethu am yr hyn yr ydych yn arfaethu ei ddarparu ac yn esbonio rhai o'r termau a ddefnyddir yn y paragraffau hyn. Buaswn yn croesawu goleuni ar y canlynol:

i. A yw'n rheidrwydd cyfreithiol bod y gwasanaeth yn "Gymraeg yn bennaf" Pam "yn bennaf"? Pa ganran o'r gwasanaeth fydd mewn iaith/ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg. Os bwriedir defnyddio deunydd Saesneg - neu mewn unrhyw iaith arall ar wahân i'r Gymraeg - dylid bod yn effro i'r feirniadaeth bod rhaglenni dwyieithog yn rhoi'r argraff, neu yn awgrymu bod yr iaith leiafrifol "yn iaith dlawd, israddol ac annigonol" - barn Dafydd Glyn Jones

ii. Pan soniwch am "ofynion amrywiol y gynulleidfa, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol", pa gynulleidfa sy gennych mewn golwg.? Ai'r dair cynulleidfa amrywiol sy'n dysgu'r Gymraeg ac y cyfeirir atynt yn 3.2.5? Neu beth?

iii. Er mwyn cynyddu niferoedd y plant sy'n gwylio S4C dwedwch y bydd angen rhaglenni a dull cyflwyno fydd "yn apelgar, yn ddifyr ac yn arloesol er mwyn dal sylw plant" [Para 3.4.1.4] ac yn arbennig felly "wrth geisio cyrraedd plant hyn/pobl ifanc yn eu harddegau.". [3.4.1.7] Ymadrodd llac yw "apelgar, difyr ac arloesol". ["yn fywiog, yn ddiddorol ac yn berthnasol" yw ymadrodd BBC Cymru, mi gredaf] Ystyr 'arloesi' yw 'torri tir newydd'. Sut yn hollol y bwriedir

i'r gwasanaeth dorri tir newydd? Mae ystyr para 3.4.1.3 yn bur dywyll i mi, ond mae para 3.4.1.6 yn awgrymu mae'r cynnwys fydd yn arloesol. Byddai'n werth manylu yn y digwyddiadau am gynnwys y rhaglenni.

iv. A fwriedir llacio ymhellach safon Cymraeg llafar? 'Rwy'n tybio fod ymron pawb yn derbyn bod angen i'r iaith lafar fod yn ystwyth, yn syml - ac wrth gwrs yn syml iawn i blentyn bach - ac yn addasu ei hun i fyd a phrofiad newydd. Ond ar yr un pryd mae'n bwysig bod y Gymraeg lafar hefyd yn iaith lafar safonol, fel sy'n sylfaen i'r Gymraeg a ddysgir gan yr athrawon yn yr ysgolion; nid yn 'llenyddol" ac nid chwaith yn dafodiaith sy'n perthyn i un tiriogaeth yn unig; clywaf feirniadaeth am dafodiaith drom a glywir mewn un rhaglen. Wrth lacio safonau iaith lafar rhai bod yn wyliadwrus nad ydi hi'n dirywio i fod yn fratiaeth a fydd yn y pen draw yn dinistrio'r iaith - rhybudd ysgolhaig mawr y Gymraeg, y diweddar Athro J.E.Caerwyn Williams, fel y cofiwch.

v. Dwedwch ym mhara 3.4.1.3 "bydd Awdurdod S4C yn pennu polisi iaith Gymraeg ar gyfer y Gwasanaeth Newydd". I gwrdd a'r peryg y gall y safonau ostwng yn y dyfodol carwn argymell yn gryf (i) bod y polisi iaith yn cael ei gymeradwyo gan ysgolhaig yn y Gymraeg [mewn ymgynghoriad ag arbenigwr pwnc?];
(ii) bod y safonau iaith yn cael eu gwylio a'u harolygu'n barhaus gan gorff o arbenigwyr iaith i'w benodi gan y Bwrdd Iaith neu (yn absenoldeb y Bwrdd) gan gorff fydd yn annibynnol ar S4C, a bod adroddiadau'r corff hwnnw yn cael eu cyhoeddi. Mi hoffwn i feddwl fod y ddeubeth hyn yn dderbyniol i S4C. Byddent yn tawelu meddwl rhai o gyfeillion pennaf y Gymraeg ac S4C.

4. Ni wn i am unrhyw reswm pam na ellir gwneud yn y Gymraeg y math o raglenni y gellir eu gwneud yn y Saesneg os yw'r adnoddau cyllidebol a phroffesiynol gennym. Deallaf fod safonau'r gwasanaethau gorau ar gyfer plant yn eithriadol o uchel yn y Saesneg. A oes gennym ar hyn o brud yr adnoddau dynol i ddarparu gwasanaeth Cymraeg o'r safon uchaf i blant yn ddid-dor ar hyd y dydd, 7 diwrnod yr wythnos?

5. Byddai'n hynod o werthfawr onid yn anhepgorol cael cefnogaeth lwyr Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r gwasanaeth arfaethedig. Byddai hynny yn dangos nad rhyw chwilen a ddaeth i ben swyddogion S4C yw'r cyfan - mewn ymgais i eangu ei gynulleidfa. Byddai'n well fyth pe gellid dweud bod y gwasanaeth newydd yn cael ei lunio mewn cydweithrediad a'r Bwrdd Iaith - os nad yw'r gyfraith yn caniatáu y ffurf hwn o eiriad, dylid chwilio am ffurf o fynegiant a fyddai'n cyflwyno cefnogaeth frwdfrydig y Bwrdd.

6. Yn ogystal a'r tair cynulleidfa amrywiol a enwir ym mhara 3.2.5, efallai hod tri grŵp hefyd i'w cadw mewn golwg. Oes yna wahaniaeth sylweddol yn yr ymateb i raglenni presennol S4C rhwng (a) disgyblion mewn ysgolion sy'n dysgu'r holl bynciau trwy gyfrwng Cymraeg, (b) disgyblion mewn ysgolion sy'n dysgu'r Gymraeg fel pwnc ac fel ail iaith, (c) disgyblion mewn ysgolion neu ffrydiau sy'n dysgu rhyw gymaint o bynciau trwy'r Gymraeg ac yn dysgu'r Gymraeg ei hun fel ail iaith gan amlaf? Codaf y cwestiwn , oherwydd mae'n arwain at gwestiwn arall. A fyddai rhaglenni i gwrdd a chynulleidfa (b) ac (c) ar draul cynulleidfa (a)? Mae'r tri grŵp yn bwysig. Dichon fod y ddau grŵp olaf wedi eu hesgeuluso i raddau mawr yn y gorffennol. Os felly, mae angen cywiro'r sefyllfa. Ond rhaid peidio a mynd yn ormodol i'r ochr arall, ychwaith. Rhan o bwysigrwydd grŵp (a) yw'r ffaith mai dyma'r ysgolion syn cynhyrchu'r disgyblion sy'n debygol o fod yn rhugl yn y Gymraeg.; ac rwy'n rhyw synhwyro mai dyma'r grŵp sy debycaf o fod "a theimladau angerddol tuag at eu diwylliant." A fydd y gwasanaeth newydd yn cwrdd ag anghenion y tri grŵp fel ei gilydd? Ai dyna nod 3.2.5?

7. Os yw'r gwasanaeth newydd yn golygu cwtogi ar ddarlledu trafodion y Cynulliad, mae dyn yn synhwyro y bydd gwleidyddwyr y Cynulliad (ac eraill) yn ei wrthwynebu ar y tir hwnnw Ar wahân i unrhyw ystyriaethau pleidiol a balchder naturiol aelodau'r Cynulliad yn eu gwaith, gellir dadlau mai un o gyfraniadau pwysicaf y Cynulliad - onid y pwysicaf un - hyd yn hyn i fywyd Cymru yw bod ei weithgarwch yn cryfhau'n hunaniaeth genedlaethol; gall hyn yn ei dro helpu i gryfhau balchder pobl Cymru yn y Gymraeg, i gryfhau ei statws ym mywyd

cyhoeddus Cymru ac yn y gymuned leol. Mae'n bwysig nad yw S4C yn creu gelynion iddo'i hun draw yn y Cynulliad., ond mi fuaswn i'n tybio mae dyletswydd S4C yw gofyn am yr amodau a'r adnoddau y mae hi'n ystyried sy'n anhepgorol at gyfer y dasg. Beth be' ydi'r minimwm o ddarpariaeth gychwynnol sy'n angenrheidiol ym mam S4C i sicrhau llwyddiant y gwasanaeth? Dylid galw am ddim llai na hynny.

8. O sôn am y Cynulliad, byddai'n werth pwysleisio y byddai sefydlu gwasanaeth teledu Cymraeg at gyfer plant yn gam pwysig - efallai yn un o'r camau allweddol? - at gyrraedd y nod a osodwyd yn *Iaith Pawb,* sef polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg gan 20% erbyn blwyddyn y Cyfrifiad nesaf sef 2011.

9. Tybed oes yna wers i Gymru yn y gwasanaeth ar gyfer plant a geir yng ngwledydd eraill Gorllewin Ewrop - megis y Swistir a Denmarc yn ogystal a gwlad y Basgiaid a Chatalwnia - y gall S4U ei chymhwyso at ein hamgylchiadau arbennig ni yng Nghymru? A ellir yn gywir ddisgrifio'r gwasanaeth newydd fel rhan o symudiad ledled Ewrop?

10. Gwelaf eich bod yn ymgynghori yn eang. Ni sylwais eich bod wedi gwahodd sylwadaeth y Mentrau Iaith a Chanolfannau iaith (yn unigol), y Cyngor Disgyblion Ysgolion Uwchradd (yn unigol), Cymdeithas Prifathrawon (os oes y fath gorff yn bodoli yng Nghymru) a Cholegau Addysg Bellach sy'n cynnal dosbarthiadau Cymraeg.